**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD GWENER, 22 CHWEFROR, 2013**

**FRIDAY, 22 FEBRUARY, 2013**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR ARFON/YSTAFELL GLYDER FAWR,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**
**PENRALLT,**
**CAERNARFON**

**am /at 11.30am.**

**(Aelodau'r Is-bwyllgor yn unig i gyfarfod ger Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor am 9.30am)**
**(Sub-committee members only to meet near the Star Kebab, 323, High Street, Bangor at 9.30am)**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 14/02/13

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

W. Tudor Owen (Cadeirydd/Chairman)

Chris Hughes

Ann Williams

Elfed Williams (wrth gefn/reserve)

**Aelodau Lleol / Local Members**

Cynghorwyr/Councillors

Huw Edwards
(cais/application 4)

Gwynfor Edwards
(cais/application 5)

Eirwyn Williams
(cais/application 6)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. 11.30am CAIS AM DRWYDDED EIDDO – LIFESTYLE EXPRESS, 21, FFORDD ELIDIR, MAESINCLA, CAERNARFON**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **glas**)

**5. 1.30pm CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323, STRYD FAWR, BANGOR**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **aur**)

**6. 3.00pm CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – CADWALADER'S ICE CREAM CAFE, STRYD Y CASTELL, CRICCIETH**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **pinc**)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **22 CHWEFROR 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – LIFESTYLE EXPRESS 21 FFORDD ELIDIR, MAESINCLA, CAERNARFON** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Lifestyle Express, 21 Ffordd Elidir, Maesincla , Caernarfon LL55 1DR gan Mr Raja Shajanur, 10 Stryd Faenol , Caernarfon, LL55 2RL. Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo o 07:00 y bore hyd at 21:00 yr hwyr o ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, ac o 09:00 y bore ar ddydd Sul tan 20:00 yr hwyr. Mae oriau agor a chau arfaethedig y busnes yn cyfateb i'r oriau gwerthu alcohol.

Mae'r Heddlu wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd ar gychwyn y cyfnod ymgynghori; ac wedi cael cytundeb yr ymgeisydd i dderbyn amodau ar y drwydded mewn perthynas â gosod a defnyddio system teledu cylch cyfyng. Nid oes gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais fel arall.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Tref Caernarfon | E bost - gwrthwynebiad |
| Heddlu | E. bost –sylwadau a dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | 17 llythyr - gwrthwynebiadau |
| Gwasanaeth Tan | Llythyr – sylwadau, dim gwrthwynebiad |

Yn ogystal â'r uchod fe dderbyniwyd deiseb gydag enw a chyfeiriad 6 preswylydd cyfagos yn gwrthwynebu'r cais. Yn unol â chanllawiau perthnasol i'r Ddeddf Drwyddedu 2003; ni ellir ystyried deiseb fel ymatebion dilys i gais am drwydded.
Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU

### Preswylwyr

Gwrthwynebir y cais ar sail yr amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu Plant rhag niwed

### Aelodau Cyngor Tref Caernarfon

Gwrthwynebir ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON) |
|---|---|
| DYDDIAD: | 22 CHWEFROR 2013 |
| TEITL: | CAIS AM ADOLYGIAD O DRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323 STRYD FAWR, BANGOR |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH RHEOLEIDDIO |

## CAIS

Atodir cais i adolygu trwydded eiddo Star Kebab, 323 Stryd Fawr, Bangor LL57 1YA gan yr Arolygydd Simon Barrasford Heddlu Gogledd Cymru. Fe gyflwynwyd y cais mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu sef

- Rhwystro trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Rhwystro niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Cyflwynwyd y cais oherwydd parhad problemau yn ymwneud yn bennaf a throsedd ac anrhefn ar yr eiddo , a thor-amod cyson yn enwedig mewn perthynas ag oriau cau ar drwydded lluniaeth hwyr yn nos yr eiddo.

Mae'r eiddo eisoes wedi bod yn destun adolygiad gan yr Heddlu yn Nhachwedd 2011; ac fe benderfynodd yr Is - Bwyllgor ganiatáu adolygiad o'r drwydded ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Heddlu ar y 12fed o Ionawr 2012. Gweler copi o'r cais adolygiad fel Atodiad A i'r cais adolygiad presennol a wneir gan yr Heddlu.
Penderfynodd yr Is - Bwyllgor yn Ionawr 2012 i gwtogi oriau agor, ac oriau gweithgareddau trwyddedig fel a ganlyn -

Sul / Iau - 23:00 tan 02:00
Gwener/Sadwrn – 23:00 tan 02:30.

Yn ychwanegol i'r uchod , newidiwyd yr amodau mewn perthynas â chynnal a chadw system TCC ar yr eiddo, ac ychwanegwyd amodau parthed presenoldeb goruchwylwyr drysau, a chofrestr goruchwylwyr drysau.

Apeliodd Deilydd y drwydded yn erbyn penderfyniad yr Is - Bwyllgor; a golyga hyn nad oedd yn bosib gweithredu'r oriau newydd hyd nes y cafwyd penderfyniad y Llys ar yr achos apêl.

Ar ddiwrnod yr achos apêl yn y llys ar y 28ain o Awst 2012; fe hysbyswyd y Llys fod deilydd y drwydded yn tynnu ei gais apêl yn ôl; gan olygu fod penderfyniad yr Is - Bwyllgor yn dod yn weithredol ar unwaith.

Ar 15 ac 16 o Fedi 2012; tystiodd yr Heddlu i'r eiddo fod yn agored tu hwnt i'w horiau trwyddedig; ac fe reportiwyd y troseddau o dor amod trwydded gan yr Heddlu yn unol â gofynion adran 136 o'r Ddeddf Drwyddedu 2003. Fe fu raid i ddeilydd y drwydded ymddangos gerbron Llys Ynadon Caernarfon ar 19 o Dachwedd, lle llediodd yn euog i'r troseddau.

Mae cais yr Heddlu yn ymhelaethu ar y troseddau penodol sydd yn sail tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae 22 o ddigwyddiadau o drais ac anrhefn yn gysylltiedig â'r eiddo hwn erbyn hyn. Nodir fod yr eiddo yn gyfrifol am dros 80% o ddigwyddiadau treisgar mewn eiddo lluniaeth hwyr y nos ym Mangor.

Mae rhai o’r digwyddiadau o drais ac anrhefn wedi digwydd yn ystod penwythnos ym mis Rhagfyr 2012. Roedd deilydd y drwydded ar y pryd yn gweithredu yn unol ag ymestyniad oriau a ganiatawyd drwy Rybuddion Dros Dro a ganiatawyd gan yr Is - Bwyllgor ar y 29/11/12.

Cyflwynir tystiolaeth gan yr Heddlu yn ogystal o ddiffyg cydymffurfiad a’r amodau trwydded o ddarparu goruchwylwyr drysau ar ôl 23:00 o ddydd Iau i ddydd Sul; a chadw cofrestr cofnodi goruchwyliwr drws. Nodir achlysuron lle nad oedd cydymffurfiad gyda’r amodau hyn.

Fe nodir gan yr Heddlu hefyd fod yn bosib gweld o’r dystiolaeth TCC a gyflwynir i’r Pwyllgor i gefnogi’r cais hwn, fod diffyg cydymffurfiad a nifer o amodau eraill trwydded yr eiddo. Mae Atodlen 2 o gais yr Heddlu yn ymhelaethu ar y manylion a welir ar y disgiau TCC.

**ARGYMHELLIAD YR HEDDLU**

Gofynnir i’r Is Bwyllgor ddefnyddio’r grym a awdurdodir iddo i wahardd trwydded yr eiddo am gyfnod o dri mis , neu unrhyw gyfnod a ystyrir yn briodol gan yr Is Bwyllgor. Barn yr Heddlu yw y byddai gwaharddiad penodol yn rhoi cyfle i ddeilydd y drwydded roi camau mewn lle i ddatrys y diffyg rheolaeth mae’r Heddlu wedi ei dystio ar yr eiddo.

**YMGYNGHORIAD**

Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar gais yr Heddlu oddi fewn i’r cyfnod perthnasol; hyd at y 4ydd o Chwefror pryd y cwblhawyd yr adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **22 CHWEFROR 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO – CADWALADER'S ICE CREAM CAFÉ, STRYD Y CASTELL, CRICCIETH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo ar gyfer Cadwalader's Ice Cream Café, gan Jenny Fry, Ymgynghorydd Trwyddedu yn gweithredu ar ran Cadwalader's (Ice Cream) Limited.
Cyflwynir y cais er mwyn cael yr hawl i werthu alcohol ar yr eiddo rhwng 10:00 y bore a 21:30 yr hwyr, saith niwrnod yr wythnos. Nid oes cais i newid yr oriau mae'r eiddo yn agored i'r cyhoedd; sef rhwng 10:00 y bore a 22:00 yr hwyr yn ddyddiol.
Eglurir yn y cais fod yr eiddo yn masnachu fel caffi/ siop goffi yn gyffredinol. Nodir fod y bwriad i werthu alcohol yn weithred ategol i'r prif ddefnydd yn unig; ( sef gwerthu bwyd a diod) ac mai'r bwriad yw cynnig coffi neu bwdin yn cynnwys gwirodlyn, gwirodydd, gwin a chwrw arbenigol.

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad gan breswylydd cyfagos.
Fe wrthwynebir y cais ar sail fod natur y busnes eisoes yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus; ac y byddai'r sefyllfa yn gwaethygu petai'r cais yn cael ei ganiatáu.
Mae'r gwrthwynebydd yn cwyno am y sŵn, sbwriel; diffyg parch cwsmeriaid yr eiddo a phroblemau oherwydd bod cwsmeriaid yn parcio o flaen eiddo'r gwrthwynebydd gan rwystro mynediad.
Gweler yr adroddiad am gynnwys y llythyr gwrthwynebiad.

Derbyniwyd e bost gan y Cynghorydd Eirwyn Williams yn datgan nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r cais.

Derbyniwyd e bost gan swyddog o'r Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn datgan nad oedd ganddi sylwadau ar y cais.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.